

Cyngor Cymuned Llanfrothen
COFNODION CYFARFOD MEHEFIN 2019
24 Mehefin 2019 7.30 Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen

1. YMDDIHEURIADAU

Nyfain Wynn

2. DATGAN DIDDORDEB

Dim

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cadarnhawyd cofnodion mis Mai 2019.

Cynnig: Rhydwen Roberts

Eilio: Dafydd Watts

PRESENNOL :

Cynghorwyr: Nia Povey, Rhydwen Roberts, Glyn Griffiths, Llio Griffiths, Richard Jones, Ifor Jones

Cadeirio: Dafydd Watts

Clerc: Huw Llwyd Rowlands

4. Materion yn codi o'r cofnodion

4.1 13 Garreg Frech

Cafwyd ymateb gan Arweinydd Cyngor Gwynedd, y Cynghorydd Dyfrig Siencyn. Cytunwyd nad oedd y llythyr yn ateb llawer o bryderon y cyngor cymuned, a gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu eto at Gyngor Gwynedd yn gofyn am eglurder pellach ar gymhelliad Cyngor Gwynedd i ddelio â thai gweigion o dan y ddeddfwriaeth tai gwag.

Trafodwyd hefyd y syniad o gael cynrychiolwyr/trigolion lleol i fynegi barn ac o bosibl cynnal cyfarfod cyhioeddus. Penderfynwyd trafod hyn ymhellach yng nghyfarfod mis Medi 2019.

4.2. Mynwent Tan Lan

Cytunwyd i ofyn i Dylan Edwards dorri'r fynwent hyd at 10 gwaith mewn blwyddyn – sef 2 doriad ychwanegol. Bydd y cyngor cymuned yn talu pro rata am y ddau doriad ychwanegol yma.

Penderfynwyd adolygu'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn.

Pwysleisiwyd hefyd yr angen i glirio'r gwair ar ôl gwneud toriad.

Cytunwyd y byddai plannu ychydig o goed sy'n blodeuo yn y fynwent yn syniad da. Cytunodd y Cyngorydd Nia Povey I chwilio am blanhigion addas.

Mae RBA Associates, y cwmni sydd yn edrych ar ail-broffilio'r fynwent yn gofyn am ffi ychwanegol o £450 er mwyn darparu amcangyfrif am y costau o weithredu opsiynau 1,2 a 3, ac er mwyn adolygu'r niferoedd plotiau.

Gofynnwyd i'r Clerc ysgrifennu at RBA yn dweud fod disgwyl i'r gwaith uchod fod yn rhan o'r ffi wreiddiol, a dylai'r gwaith yma gael ei wneud heb godi cost ychwanegol.

4.3. Diogelwch a Chyflymdra Traffig, Llanfrothen

Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar osod canllawiau ar gyfer gosod cyfyngiadau cyflymder 20 mya mewn pentrefi.

Os bydd y canllawiau yn cael eu cyflwyno, mae'n bosibl y gellir eu defnyddio er mwyn gosod cyfyngiadau cyflymder o 20 mya yng nghanol pentref Llanfrothen.

4.4. Canllaw tu ôl i Siop Llanfrothen

Mae'r canllaw bellach wedi ei osod y tu ôl i'r siop yn Llanfrothen. Cytunwyd mai Menter Llanfrothen ddylai dalu am osod y canllaw,

ac fe wnaeth y cyngor cymuned roi rhodd ariannol i'r Fenter am gost gosod y canllaw.

4.5. Baner a Pholyn Llanfrothen

Mae'r faner a pholyn wedi cyrraedd. Gellir yn awr eu gosod.

4.6. Cytundeb Delwedd

Mae Cymru 1 wedi cytuno i weithredu yn lle Delwedd. Cytunwyd ar gyngor Cymru 1 i ddefnyddio y cyfeiriad cyngorllanfrothen@gmail.com ar gyfer derbyn ymholiadau cyffredinol o'r wefan. Penderfynwyd hrefyd i ddileu'r ffurflen ymholiad.

4.7. Y Ganolfan, Llanfrothen

Cafwyd copi o'r brydles gan Gyngor Gwynedd. Mae'r brydles ar y telerau arferol yr oedd Cyngor Gwynedd yn eu defnyddio wrth gynnig canolfannau cymdeithasol i gynghorau cymuned.

Mae'r telerau yn golygu prydles i'r cyngor cymuned, cofrestriad gyda'r Comisiwn Elusennol, gyda threfniant bod Pwyllgor o gynrychiolwyr mudiadau lleol yn rheoli'r Ganolfan o ddydd i ddydd.

Mae angen danfon cyfrifon blynyddol i'r Comisiwn Elusennol, ond nid yw hyn wedi digwydd ers dechrau'r nawdegau.

4.8. Gweithio ar y cyd

Cafwyd cyfarfod ddiwedd Mai gyda chynrychiolwyr o Gyngor Tref Penrhyndeudraeth, Cyngor Cymuned Beddgelert a Chyngor Cymuned Trawsfynydd.

Cytunwyd i'r egwyddor y medrai cynghorau cymuned cyfagos gydweithio ar nifer o faterion, e.e. er mwyn rhannu syniadau a phrofiad, drafftio dogfennaeth ac arbed arian wrth ddyfarnu cytundebau.

Gweler cofnodion y cyfarfod ar gyfer trafodaeth bellach.

Penderfynwyd danfon Anfoneb am £100 i Gyngor Gywnedd am osod y Ganolfan ar gyfer etholiad Ewrop.

5. Gohebiaeth

- Ceir cyfarfod rhwng 18:30 a 20:30 ar 1 Hydref ym Mhlas Tan y Bwlch rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chynghorau Tref a Chymuned.

6. Materion Ariannol

- 6.1** Cyflog a chostau Clerc, Mai a Mehefin 2019 £214.00x2, £53.40 TWE x 2
- 6.2** Talu Anfoneb Delwedd Mai a Mehefin 2019 £77.09
- 6.3** Penderfynwyd danfon Anfoneb am £100 i Gyngor Gywnedd am osod y Ganolfan ar gyfer etholiad Ewrop.

7. Ceisiadau Cynllunio

Dim

8. Materion Eraill

8.1 Trafodaeth ar Ymateb i Lythyr Swyddfa Archwilio Cymru Dyddiedig 24 Mehefin 2019

Trafodwyd y materion oedd yn codi yn llythyr Swyddfa Archwilio Cymru dyddiedig 13 Mehefin 2019, ac fe benderfynwyd cynnal cyfarfod arbennig ar 1 Gorffennaf er mwyn trafod ymhellach.

Yn y cyfamser, gofynnwyd i aelodau lenwi cofrestr buddiannau, un o ofynion Swyddfa Archwilio Cymru, a dod â chopi i'r cyfarfod ar 1 Gorffennaf.

8.2 Rheoliadau Adolygu Dosbarthiadau Pledleisio a Safleoedd Pledleisio (Etholiadau Seneddol) 2016

Trafodwyd y Rheoliadau yma sy'n gofyn i awdrudodau lleoladolygu eu dosbarthiadau a safleoedd pledleisio, ond doedd dim sylwadau i'w gwneud parthed parhau i ddefnyddio Canolfan Gymdeithasol Llanfrothen fel safle pledleisio.

8.3 Stâd Portmeirion

Penderfynwyd gofyn i Balfour fynychu cyfarfod nesaf y cyngor cymuned er mwyn trafod nifer o faterion. Un mater i'w drafod fyddai darpariaeth arosfan fysiau yn Llanfrothen.

Mae angen hefyd gofyn iddynt dorri'r cloddiau yn y Lôn sy'n mynd i gyfeiriad Croesor, gam mai Stâd Protomeirion sydd bia'r tir. Mae angen hefyd tynnu ambell i goeden sydd wedi marw. Ni dorrwyd y gwair y llynedd tan yn hwyr iawn yn y flwyddyn.

8.4 Torri Tyfiant yn Rhyd

Mae Cyngor Gwynedd wedi bod yn torri tyfiant yn Rhyd, ond mae rhai lleoedd fel y lle parcio heb ei dorri o gwbl. Mae angen gofyn i Gyngor Gwynedd ddychwelyd i orffen y gwaith.

8.5 Arwyddion Ffordd Llanfrothen

Yn Nhanybwllch ceir arwyddion yn gwahardd cerbydau mawr trwy Rhyd ac i gyfeiriad Llanfrothen. Roedd dau arwydd wedi eu lleoli ger y siop yn Llanfrothen, ond mae'r rhain bellach wedi diflannu.

Mae angen gofyn i Gyngor Gwynedd osod arwyddion newydd.

9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf

Penderfynwyd cynnal cyfarfod arbennig ar nos Lun 1 Gorffennaf